TASG 1 : TRAFOD / DADANSODDI

'Ddoe'n graig a heddiw'n gragen', meddai'r bardd am ei daid, gan ddefnyddio ymadrodd sy'n drosiad *ac* yn wrthgyferbyniad. Roedd ei daid unwaith mor gryf a chadarn â'r graig, ond erbyn hyn, mae mor wag a bregus â chragen.

a) Ceisiwch feddwl am barau eraill o eiriau y byddai'r bardd wedi gallu eu defnyddio yn lle'r pâr 'craig' a 'cragen'. Bydd angen i'r parau hyn fod yn eiriau gwrthgyferbyniol ac, o bosib, hefyd yn drosiadau.

e.e.	(a)	ddoe'n eryr a heddiw'n ddryw
	(b)	ddoe'n gawr a heddiw'n gorrach
	(c)	ddoe'n _____ a heddiw'n _____
	(ch)	ddoe'n _____ a heddiw'n _____
	(d)	ddoe'n _____ a heddiw'n _____

b) Wedi cwblhau gweithagredd (a), rhowch resymau pam y tybiwch chi fod y bardd wedi defnyddio 'Ddoe'n graig a heddiw'n gragen' yn hytrach nag unrhyw bâr arall o eiriau gwrthgyferbyniol. Ceisiwch feddwl am y gerdd yn ei chyfanrwydd, am ystyr y geiriau, ac am eu sain nhw hefyd.

TASG 2 : RHESTRU / PARAU

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Nid ydym yn cenfigennu wrth hen bobl fel arfer.

Gyda'ch partner, serch hynny, ystyriwch beth yw manteision bod yn oedrannus.

Ysgrifennwch gyfres o ddeg o bwyntiau bwled yn amlinellu'r manteision hyn.

TASG 3 : YSGRIFENNU / PERFFORMIO

Dychmygwch eich bod yn hen ŵr neu'n hen wraig – o bosib rhywun rydych yn ei adnabod neu ei hadnabod, neu mae croeso i chi 'greu' cymeriad.

a) Ysgrifennwch ymson (tua 400 o eiriau) yn sôn am y pethau nad ydych yn eu hoffi am yr 'oes fodern hon'. Mae croeso i chi gwyno'n flin, ond ceisiwch gwyno'n ddifyr hefyd.

b) Cofiwch mai rhywbeth i'w berfformio i gynulleidfa yw ymson yn y pen draw. Efallai y bydd cyfle i chi ddarllen darn o'r ymson o flaen y dosbarth.